# TACHWEDD 5ed! O!NA!

Wrth i chi adeiladu eich coelcerth, cofiwch am yr anifeiliaid gwyllt, yr adar a'r anifeiliaid anwes!

Yn ystod oriau'r nos bydd llawer o adar yn cysgu yn y coed a'r llwyni felly ni ddylid gosod coelcerth na thanio tân gwyllt yn rhy agos atynt.

Mae clecian uchel y goelcerth a'r ffrwydriadau a'r goleuadau llachar yn eu dychryn ac yn peri iddynt ddianc. Golyga hyn eu bod yn defnyddio egni i chwilio am gartref arall yn ddiangen.

Ni ddylid adeiladu coelcerth na threfnu tân gwyllt yn rhy agos at flychau nythu chwaith. Er bod y tymor nythu drosodd cysga'r adar yn y blychau dros y gaeaf.

Argymhellir adeiladu'r goelcerth y diwrnod y bydd yn cael ei chynnau fel nad yw draenogod yn cael cyfle i fynd yno i aeafgysgu. Ni ddylid llosgi pentwr o goed sydd wedi bod yno ers sbel oherwydd bydd llawer o greaduriaid wedi setlo yno. Ni ddylid defnyddio coed gyda gorchudd plastig chwaith gan y bydd yn gadael nwyon gwenwynig allan wrth gael ei losgi.

Unwaith y bydd noson tân gwyllt drosodd mae'n hawdd helpu bywyd gwyllt trwy adael pentwr o unrhyw goediach a phreniau sydd ddim wedi cael eu defnyddio yng ngornel yr ardd. Bydd yn lloches gwych i bob math o fywyd gwyllt fel brogaod, llyffantod a draenogod.

Dylid gwneud yn siwr bod gan gathod a chŵn rywle i guddio pan fyddant yn dychryn a'u cadw yn y tŷ. Gellir rhoi *microchip* ar gi rhag ofn iddo ddianc. Mae chwarae cerddoriaeth a chau'r llenni a'r drysau i fygu'r synau yn syniad da.

Os nad yw'n debygol o'i niweidio ei hun, dylid anwybyddu ci sy'n ofnus. Byddai ei gosbi neu wneud ffws ohono yn ei wneud yn waeth.